## YR ATODLEN

### Addasiadau i Ddeddfau Seneddol sy'n gysylltiedig â diddymu Awdurdodau Iechyd Cymru a chreu Byrddau Iechyd Lleol

## Deddfau Seneddol

**Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) Act 1986 (p.33)**

**15.**—(1) Diwygir Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 fel a ganlyn.

(2) Yn lle "Health Authority" rhodder "Local Health Board" yn yr adrannau canlynol —

(a) adran 2 (hawliau cynrychiolydd awdurdodedig personau anabl), yn is-adran (9) yn is-baragraff (aa); a

(b) adran 7 (personau sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty), yn is-adran (9) yn is – baragraff (aa) yn y diffiniad o "health authority".

(3) Yn adran 16 (dehongli), mewnosoder yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor ""Local Health Board" means a Local Health Board established under section 11 of the National Health Services (Wales) Act 2006;".